Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Pontsian**
**Neuadd D.H. Evans**
**Pontsian**
**Llandysul**
**Ceredigion**
**SA44 4UB**

**Dyddiad yr arolygiad: 13-14 Mawrth 2012**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**
**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd y lleoliad yn 1989 ac mae'n cwrdd yn neuadd gymunedol Pontsian, ger Llandysul. Mae mwyafrif y plant sy'n mynychu'r lleoliad yn byw yn y pentref. Bernir nad yw'r ardal yn ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy a hanner i bedair oed am bedwar sesiwn yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Mae ar agor rhwng 9:00 a 11:30 y bore. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd pum plentyn tair oed ar y gofrestr. Cymraeg yw iaith y cartref i'r mwyafrif ohonynt. Nid oes plant o gefndiroedd ethnig o fewn y garfan bresennol ac nid oes llefydd wedi eu dynodi ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae dau aelod o staff ac maent yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Mae'r lleoliad yng ngofal prif ymarferydd profiadol ac mae yna un ymarferydd arall llawn amser a gychwynnodd yn ei swydd ym mis Tachwedd 2011.

Cafodd y lleoliad ei harolygiad diwethaf gan Estyn ym Mawrth, 2006 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn Hydref, 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r plant yn hapus ac yn ymuno'n llawn yn y profiadau dysgu a ddarperir;
- caiff y gweithgareddau eu paratoi'n ofalus;
- caiff y plant ofal da mewn amgylchedd dysgu cynhwysol;
- mae perthynas dda iawn rhwng y plant a'r ymarferwyr; ac
- mae ymarferwyr ymroddedig sy'n ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn effeithiol.

**Rhagolygon gwella**

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella da oherwydd:

- rheolaeth effeithiol y prif ymarferydd;
- gwaith tîm da;
- y ffocws ar wella'r ddarpariaeth ymhellach; a'r
- cydweithio effeithiol gyda'r rhieni, yr ysgol gynradd a'r gymuned.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 fireinio'r cynllunio i sicrhau cydbwysedd a dilyniant cyson ym medrau dysgu'r plant ar draws y meysydd dysgu; ac

A2 ymestyn gwybodaeth yr ymarferwyr o ddulliau hunan arfarnu a chynllunio i'r dyfodol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Amherthnasol |
|---|---|

**Safonau:**
Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles:**
Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n briodol i ddiwallu gofynion cyffredinol cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Gwneir defnydd pwrpasol o fframweithiau cynllunio i ddarparu ystod o weithgareddau sy'n seiliedig ar themâu sy'n addas i ystod oed y plant. Er hyn, nid oes sylw digonol bob amser i sicrhau cydbwysedd a dilyniant cyson ym medrau dysgu'r plant ar draws y meysydd dysgu.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd addas i'r plant ddatblygu medrau meddwl, cyfathrebu, rhifedd, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Darperir ystod eang o weithgareddau ac adnoddau ym mhob ardal ddysgu o amgylch yr ystafell. Mae hyn yn hyrwyddo annibyniaeth a hyder y plant fel dysgwyr ac yn darparu profiadau gweithredol iddynt gael ymarfer eu medrau.

Darperir anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio medrau Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda'r plant ac yn cyflwyno geirfa newydd yn effeithiol. Cynigir model dda o fynegiant cywir i'r plant. Datblygir ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn briodol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi, dysgu am fywyd Dewi Sant a choginio bwydydd Cymreig. Darperir cyfleoedd addas hefyd i'r plant ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau pobl eraill trwy ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a gŵyl Divali.

Mae'r cyfleoedd i'r plant blannu a thyfu planhigion ac ymwneud â gweithgareddau ailgylchu yn datblygu eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth ddatblygol o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac maent yn darparu profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y plant yn gyson. Gwneir defnydd effeithiol o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol i gynorthwyo'r dysgu. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cymorth cyson i'r plant ac yn ymuno'n egnïol yn y gweithgareddau.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda a defnyddir gweithdrefnau addas i asesu a chofnodi eu cynnydd. Maent yn arsylwi ac yn cofnodi ymateb y plant yn gyson wrth iddynt ymwneud â'u gweithgareddau. Caiff rhieni eu hysbysu am gynnydd eu plant trwy drafodaethau anffurfiol ar ddechrau a diwedd sesiynau a thrwy adroddiad ysgrifenedig addas. Cwblheir ffurflenni trosglwyddo gwybodaeth priodol i'r ysgol gynradd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth. Gweithredir polisïau addas sy'n cyfrannu'n briodol at eu datblygiad a'u lles cyffredinol. Mae'r trefniadau sefydlu yn sicrhau eu bod yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad ac mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol ohonynt.

Mae polisi a threfniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol pan fydd angen, ac mae llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol. Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Ymgymerir ag asesiadau risg yn rheolaidd.

Mae profiadau dysgu effeithiol yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Hyrwyddir gwerthoedd, megis tegwch, caredigrwydd, a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir, yn gyson drwy'r gweithgareddau dyddiol. Mae profiadau, megis cynnig gweddi cyn byrbryd, dathliadau diolchgarwch a gwaith ar stori'r Nadolig, yn cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol y plant yn effeithiol. Mae'r cyfleoedd i ymuno mewn rhai dathliadau gyda disgyblion yr ysgol gynradd hefyd yn cyfrannu at eu datblygiad cymdeithasol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a ddarperir. Llwyddir i greu awyrgylch deuluol a chroesawgar. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn ymateb yn briodol. Mae cymhareb ffafriol o ran ymarferwyr i blant.

Gwneir defnydd llawn o'r gofod dysgu yn yr ystafell trwy drefnu ardaloedd o weithgareddau pwrpasol. Ychwanegir at yr amgylchedd dysgu yn effeithiol trwy arddangos gwaith y plant a chreu arddangosfeydd i gyd-fynd â'r themâu dan sylw. Gwneir defnydd rheolaidd o'r ardal allanol sydd yn darparu cyfleoedd addas i'r plant archwilio a chwarae. Gwneir defnydd hefyd o'r neuadd ar gyfer gweithgareddau symud. Ceir cyflenwad digonol o adnoddau a gwneir defnydd effeithiol ohonynt i gefnogi'r dysgu. Digonol yn unig yw ansawdd y cyfleusterau toiled a golchi dwylo i'r plant.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

O dan arweiniad cydwybodol a brwdfrydig y prif ymarferydd, llwyddir i greu amgylchedd dysgu pwrpasol i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau sy'n arwain

at greu gwaith tîm da. Adlewyrchir eu gwerthoedd personol yn eu hymrwymiad i'w gwaith gyda'r plant.

Mae pwyllgor rheoli'r lleoliad yn cynnig cymorth priodol. Mae'r person cofrestredig yn ymwelydd rheolaidd. Mae ganddi ddiddordeb mawr yn yr hyn sy'n digwydd ac mae'n cydweithio'n agos gyda'r prif ymarferydd. Gweithredir strwythurau addas ar gyfer gwerthuso gwaith ac adnabod datblygiad proffesiynol pellach yr ymarferwyr.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, hybu medrau iaith Cymraeg y plant a sefydlu cysylltiadau effeithiol gyda'r ysgol gynradd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sicr o brif gryfderau'r lleoliad. Maent yn sgwrsio'n rheolaidd ac yn agored i syniadau newydd er mwyn gwella'r ddarpariaeth ymhellach. Mae eu gwybodaeth am brosesau hunan arfarnu a chynllunio i'r dyfodol yn parhau i ddatblygu.

Caiff y ddarpariaeth ei fonitro'n gyson gan athrawes gyswllt yr awdurdod lleol. Cytunir ar agweddau addas i gael sylw a rhoddir strategaethau priodol ar waith. Trafodir agweddau ar y ddarpariaeth yn rheolaidd gyda swyddog cymorth Mudiad Ysgolion Meithrin.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu a baratowyd gan yr arweinydd ac athrawes gyswllt yr awdurdod lleol yn cynnig darlun cytbwys. Mae'r cynllun gwella sydd wedi deillio o hyn yn adnabod meysydd addas ar gyfer datblygiad pellach y lleoliad. Mae'r person cofrestredig yn ymgymryd ag adolygiad blynyddol ac mae'r adroddiad a ddarperir yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y ddarpariaeth.

Ceir trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr. Mae'r prif ymarferydd yn mynychu cyrsiau addas mewn agweddau ar ddatblygiad a gofal plant a gwna ddefnydd addas o'r hyfforddiant a geir. Ceir rhai cyfleoedd i gyd-drafod a rhannu syniadau gydag ymarferwyr a lleoliadau eraill yn ystod diwrnodau hyfforddi. Mae'r trafodaethau rheolaidd gydag athrawon yr ysgol gynradd yn ychwanegu at ddealltwriaeth yr ymarferwyr o'r Cyfnod Sylfaen.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Gwna'r lleoliad ddefnydd effeithiol o ystod o bartneriaethau. Mae perthynas dda gyda'r rhieni a chadarnhawyd hyn yn y sgyrsiau a gafwyd yn ystod yr arolygiad. Darperir gwybodaeth berthnasol iddynt drwy'r llawlyfr a'r hysbysfwrdd. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i gael sgwrs ar ddechrau a diwedd pob sesiwn.

Sefydlwyd perthynas fuddiol gyda'r ysgol gynradd sy'n cefnogi'r trefniadau trosglwyddo. Rhennir adnoddau a threfnir i'r plant ymuno mewn gweithgareddau megis cyngerdd Nadolig yr ysgol. Mae'r bartneriaeth agos gyda'r person

cofrestredig, yr athrawes gyswllt a swyddog Mudiad Ysgolion Meithrin yn arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad.

Mae cysylltiadau agos gyda'r gymuned. Gwneir defnydd llwyddiannus o'r cysylltiadau gyda mudiadau a sefydliadau lleol i godi arian i brynu adnoddau ychwanegol. Yn achlysurol, defnyddir pobl o'r gymuned, megis ffermwr a dyn post, i gyfrannu at y thema dan sylw.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol. Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol a sicrheir cyfleoedd hyfforddiant rheolaidd.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a chaiff penderfyniadau gwariant eu blaenoriaethu'n addas yn ôl anghenion y lleoliad. Gwneir defnydd priodol o grantiau a mentrau codi arian. Trwy gymorth effeithiol swyddog Mudiad Ysgolion Meithrin, sicrhawyd cyflenwad o adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu o ansawdd da iawn ar gyfer y lleoliad. Gwneir defnydd da ohonynt i gefnogi dysgu'r plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn hapus ac yn gwbl gartrefol yn y lleoliad. Maent i gyd yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau. Mewn sgwrs, gallant nodi eu hoff weithgareddau.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol –**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **CymdeithasGenedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |